


Mae'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniad a Marwolaethau Cleifion yn elusen sydd yn gweithio i wella gwasanaethau gofal iechyd i'r bobl sydd yn ei ddefnyddio. Rydym yn gwneud hyn trwy gasglu gwybodaeth o bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau gofal iechyd. Mae ein gwaith wedi arwain at lawer o newidiadau positif i sut y darperir gofal iechyd.

Fe wnaethom gasglu gwybodaeth o'r ysbytai a doctoriaid i weld sut gellir gwella gofal i bobl gyda isgemia aelod aciwt.

Am wybodaeth am Isgemia Aelod Aciwt, gwelwch:

[The full NCEPOD report](#)
[Yr adroddiad NCEPOD llawn](#)

[Our useful resources page](#)
[Ein tudalen adnoddau defnyddiol](#)



YR HYN A GAWSOM

Roedd oedi cyn i gleifion ag Isgemia Aelod Aciwt gael y driniaeth achub aelodau oedd ei hangen arnynt. Roedd hyn yn aml oherwydd diffyg cydnabyddiaeth o'r symptomau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol a chleifion ac oedi gan gleifion gyda'r cyflwr yn ceisio cymorth meddygol.

Nid oedd cleifion a oedd fwyaf tebygol o elwa o ymyrraeth (y rhai a gollodd deimlad yn sydyn neu oedd wedi cael eu parlysu) bob amser yn cael eu cludo'n uniongyrchol i ysbyty canolfan fasgwlaidd, a oedd yn oedi eu triniaeth. Roedd y rhan fwyaf o gleifion yn cael eu gohirio y tu hwnt i'r targed a dderbyniwyd o chwe awr

Gallai **perthnasoedd rhwydwaith** rhwng ysbytai Hwb a Changen fod yn well a bu oedi tra bod claf yn aros i gael eu trosglwyddo i ganolfan fasgwlaidd.

Gall **cynllunio rhyddhau** fod yn well. Nid oedd cleifion a gafodd dorri aelod i ffwrdd bob amser yn cael cefnogaeth seicolegol. Nid oedd cleifion a oedd mewn perygl dioddef yn y dyfodol o Isgemia Aelod Aciwt (ysmygwyr, rhai sydd â diabetes) yn cael y gefnogaeth oedd ei hangen arnynt i leihau'r risg.

BETH GALL GWASANAETHAU IECHYD GWNEUD

Dylai gwefannau gwybodaeth i gleifion (GP/ysbyty/GIG) cynnwys symptomau Isgemia Aelod Aciwt a chyfeirio cleifion i geisio cymorth meddygol ar frys.

Ddylai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol (GP/ meddygaeth frys/ parafeddygon) asesu cleifion sydd yn cyflwyno gyda phoen aciwt sydyn yn y coes. Dylid trosglwyddo'r rhai sydd â diffyg synhwyraidd-modur newydd fel argyfwng i'r ganolfan fasgwlaidd agosaf.

Dylid sefydlu rhwydweithiau fasgwlaidd rhwng meddygfeydd, ysbytai cangen a chanolfannau fasgwlaidd i rannu nodiadau achos a delweddu a chael a chael protocol trosglwyddo a rennir i leihau oedi yn y llwybr.

Sefydlu 'baner goch' ar gyfer claf gyda risg uwch, e.e. rheini gyda isgemia cronig sy'n bygwth aelodau, ffibriliad atrïaidd, diabetes, neu sy'n ysmegu. Dylid derbyn cyngor ar sut i leihau eu risg o Isgemia Aelod Aciwt a dywedwyd wrthynt beth ddylent ei wneud os oes ganddynt symptomau.

BETH ALLWCH CHI FEL CLAF/GOFALWR GWNEUD

Os ydych chi mewn perygl uchel o gael Isgemia Aelod Aciwt e.e. os oes gennych chi ddiabetes, isgemia aelodau cronig, ffibriliad atrïaidd neu ysmegu/anweddu, ymgyfarwyddwch a symptomau isgemia aelodau aciwt:

Y 6 symptom: poen, oerfel marwol, paraesthesia (colli teimlad), parlys, pallor, diffyg curiad

Ceisiwch gymorth meddygol brys ar unwaith os bydd unrhyw un o'r symptomau hyn yn ymddangos yn sydyn yn eich breichiau, dwylo, coesau neu draed.

Cofiwch: Does dim cwestiwn yn rhy fach nac yn rhy ddibwys. Mae eich tîm gofal iechyd eisiau eich helpu i ddeall eich derbyniad i'r ysbyty a themlo'n hyderus am eich gofal. Os nad ydych chi'n deall rhywbeth, daliwch ati i ofyn nes i chi wneud hynny.